OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1266

# Rheoliadau Digartrefedd (Gweithdrefn Adolygu) (Cymru) 2015

**Y weithdrefn gychwynnol pan wnaed y penderfyniad gwreiddiol o dan y Gorchymyn Penderfyniadau ynghylch Atgyfeiriadau.**

**4.**—(1) Pan gafodd y penderfyniad gwreiddiol o dan adran 80(5) (pa un a yw'r amodau ar gyfer atgyfeirio achos wedi eu bodloni) ei wneud o dan y Gorchymyn Penderfyniadau ynghylch Atgyfeiriadau, mae adolygiad o'r penderfyniad hwnnw (yn ddarostyngedig i baragraff (2)) i'w gynnal gan berson a benodwyd gan yr awdurdod sy'n hysbysu a'r awdurdod a hysbysir.

(2) Os nad yw person yn cael ei benodi yn unol â pharagraff (1) o fewn pum niwrnod gwaith o'r diwrnod y gwneir cais am adolygiad, yna mae'r adolygiad i'w gynnal gan—

(a) person o'r panel a ffurfiwyd yn unol â pharagraff 3 o'r Atodlen i'r Gorchymyn Penderfyniadau ynghylch Atgyfeiriadau ("y panel"); a

(b) person a benodwyd yn unol â pharagraff (3).

(3) Rhaid i'r awdurdod sy'n hysbysu, o fewn pum niwrnod gwaith o ddiwedd y cyfnod a bennir ym mharagraff (2), ofyn i gadeirydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru neu enwebai'r cadeirydd ("y swyddog priodol") benodi person o'r panel a rhaid i'r swyddog priodol wneud hynny o fewn saith niwrnod i'r cais.

(4) Rhaid i'r awdurdod sy'n hysbysu a'r awdurdod a hysbysir, o fewn pum niwrnod gwaith o benodi'r person a benodwyd ("y person penodedig"), ddarparu rhesymau i'r person penodedig am y penderfyniad gwreiddiol a'r wybodaeth a'r dystiolaeth sy'n sail i'r penderfyniad hwnnw.

(5) Rhaid i'r person penodedig—

(a) anfon unrhyw sylwadau a wnaed o dan reoliad 2 i'r awdurdod sy'n hysbysu a'r awdurdod a hysbysir; a

(b) gwahodd yr awdurdodau hynny i ymateb i'r sylwadau hynny.

(6) Ni chaiff y person penodedig fod yr un person â'r person a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol.